# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2024**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 3**
**3000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

## Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu’r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 3**

**HAF 2024**

**Adran A (Darllen): 30 marc**

Mae 5 darn darllen ar y thema ‘Ynysoedd’ yn y Deunydd Darllen sydd ar wahân. Darllenwch **bob** un o’r darnau’n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy’n dilyn.

**Darn Darllen 1**
**Ynysoedd Cymru**

A1. Pa ynys yw ynys fwyaf Cymru? [1]

[Ynys] Môn

A2. Beth yw arwynebedd Ynys Echni? [1]

0.33 $km^2$



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**
**Dewch i ymweld ag Ynys Enlli**

A3. **Nid** yw'r awdur yn gwneud **un** o'r canlynol yn y darn darllen. Nodwch pa un drwy roi ✔ yn y blwch priodol:- [1]

Cyflwyno gwybodaeth ☐
Perswadio ☐
Mynegi barn ✓
Rhoi cyfarwyddiadau ☐

Rhoi ✓i fwy nag un – 0 marc

A4. Pa **un** o'r ffeithiau yma sy'n gywir? Nodwch drwy roi ✔ yn y blwch briodol. [1]

| | |
|---|---|
| Mae croeso i gŵn o bob math ar yr ynys. | |
| Gall y daith gael ei chanslo os yw'r tywydd yn rhy braf. | |
| Dim ond am bedair awr y cewch chi aros ar yr ynys yn ystod eich taith. | ✓ |
| Rhaid i chi ebostio os ydych chi am archebu lle ar y cwch. | |

Rhoi ✓i fwy nag un – 0 marc


© WJEC CBAC Cyf.

A5. Sut mae'r darn yn llwyddo i'n perswadio ni i fynd ar y cwch i Ynys Enlli? Dylech gyfeirio at dechnegau arddull yn eich ateb. [6]

**0 marc** Dim ateb/ateb amherthnasol

**1 marc** Gallu cyfeirio'n syml at ambell beth sy'n dangos bwriad yr awdur gan ddechrau dyfynnu.

**2 farc** Ymdrech eithaf da i drafod arddull/technegau'r testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad.

**3 marc** Ymdrech dda i drafod arddull/technegau a ddefnyddir yn y testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad a dechrau dadansoddi.

**4 marc** Trafod arddull/technegau yn dda gan gynnwys enghreifftiau/dyfyniadau perthnasol yn gyson a dadansoddi'n dda a chyson.

**5 marc** Trafod arddull/technegau yn dda iawn gan gynnwys enghreifftiau/dyfyniadau perthnasol yn gyson a dadansoddi'n dda iawn.

**6 marc** Trafod arddull/technegau yn ddeallus gan gynnig dyfyniadau/cyfeiriadau yn gyson a dadansoddi'n aeddfed.

Gellir cyfeirio at y canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfarch y darllenydd / Berfau gorchmynnol | Dewch, Cewch, Rhowch, Ffoniwch |
| Enwi | Ynys Enlli, Aberdaron, Spar, Llwybr y Pererinion, Porth Meudwy ayyb |
| Ansoddeiriau | cyflym, cyfoes, ffafriol, naturiol, arbennig, unigryw, ysbrydol, crefyddol, diogel a chyfforddus |
| Trosiad | yng ngogoniant eu cynefin naturiol |
| Rhestr | adar, llamhidyddion a morloi llwyd |
| Cyflythrennu | cwch cyflym, cyfoes |
| Rhifau | e.e. y rhif ffôn, pris y daith, yn y cyfarwyddiadau |
| Rhagenwau person 1af | Ein/ni |
| Cyfarwyddo | ewch, trowch, chwiliwch, edrychwch |
| Ffeithiau am y daith | e.e. treulio 4 awr ar yr ynys, cwch yn dal 12 |
| Ail-adrodd | Cewch |
| Logo/Lluniau | |
| Blychau Gwybodaeth | |

neu unrhyw dechnegau cywir eraill.



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**
**A Wyddoch Chi ...?**

A6. Mae **pedwar** o'r datganiadau isod yn gywir wrth drafod y tair ynys. Mae **un** ateb cywir wedi'i roi i chi'n barod. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r **tri** sylw cywir arall. [3]

| | |
|---|---|
| Eidalwr oedd Guglielmo Marconi. | ✓ |
| Mae Ynys Gwales 3 ½ milltir i'r de-orllewin o arfordir Sir Benfro. | |
| Ers Oes Fictoria, nid yw Ynys y Barri yn ynys mewn gwirionedd. | ✓ |
| Grassholm yw'r enw Saesneg ar Ynys Echni. | |
| Mae Ynys Gwales yn gartref i filoedd o adar. | ✓ |
| Un o atyniadau poblogaidd Ynys y Barri yw'r ffair. | ✓ |
| Ynys Echni yw pwynt mwyaf dwyreiniol Cymru. | |
| Mae recordiad o neges ddi-wifr gyntaf Marconi yn cael ei gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. | |

Ticio 4 blwch – tynnu un marc o'r cyfanswm
Ticio 5 blwch neu fwy – 0 marc


© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**
**Blog Dic Aberdaron**

A7. Tanlinellwch yr idiom yn y paragraff canlynol. [1]

| |
|---|
| Os nad ydych chi'n credu bod y ffactorau hyn yn dal dŵr, mae rhagor! Mae dogfennau swyddogol yn nodi fod Ynys Afallon wedi'i lleoli rhwng Borth yng Ngheredigion ac Arklow yn Iwerddon. Enlli yw'r ynys fwyaf o fewn yr ardal honno. |

A8. Ar ôl darllen y blog, ble rydych chi'n credu mae Ynys Afallon – Ynys Enlli neu Ynys Wydrin? Defnyddiwch dystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi eich ateb. [4]

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Heb ymgeisio/ateb amherthnasol |
| **1 marc** | Nodi barn yn fras – rhaid cael un rheswm sy'n cyfeirio at y darn |
| **2 farc** | Nodi barn yn eithaf manwl gyda rhesymau/tystiolaeth |
| **3 marc** | Barn fanwl gyda rhesymau a dechrau dehongli tystiolaeth |
| **4 marc** | Barn fanwl gyda rhesymau cadarn a dehongli tystiolaeth yn effeithiol |


© WJEC CBAC Cyf.

| Gellir nodi Ynys Enlli, Ynys Wydrin neu eu bod rhwng dau feddwl am resymau gwahanol | |
|---|---|
| **Ynys Enlli** | **Ynys Wydrin** |
| Arwr Cymreig oedd Arthur felly mae'n gwneud synnwyr mai i ynys yng Nghymru yr aeth o'r frwydr yng Nghamlan. | Er nad yw'n ynys heddiw, mae'r ardal wedi'i hamgylchynu yn llwyr gan gorstiroedd a thir gwlyb. |
| Brwydr olaf Arthur oedd Brwydr Camlan ac mae'r enw "Camlan" yn swnio'n debyg i'r enw Porth Cadlan, ger Aberdaron. Ystyr 'cadlan' ydi 'maes brwydr'. | Enw arall ar Ynys Afallon yn y Gymraeg oedd Ynys Afallach, sy'n golygu Ynys yr Afalau a thyfodd y ffrwyth hwn yn helaeth yn Ynys Wydrin ar un adeg. |
| Enw chwaer Arthur oedd Gwenonwy. Oddi ar arfordir Aberdaron mae craig fawr yn y môr a'i henw hi ydy Maen Gwenonwy. | Yn 1191, daeth mynachod Abaty Glastonbury o hyd i fedd gyda thair arch ynddo. Roedden nhw'n honni mai Arthur a Gwenhwyfar (ei wraig) oedd piau'r esgyrn pydredig mewn dwy arch. |
| Enw nai Arthur (mab Gwenonwy) oedd Hywyn. Nawddsant Aberdaron ydi Hywyn a sefydlodd ei eglwys yn Aberdaron yn y 6ed ganrif – yn yr un cyfnod ag y digwyddodd Brwydr Camlan. | Ar un arch roedd croes o blwm gyda'r geiriau: "Yma y gorwedd yr enwog frenin Arthur yn Ynys Afallon". |
| Mae dogfennau swyddogol yn nodi fod Ynys Afallon wedi'i lleoli rhwng Borth yng Ngheredigion ac Arklow yn Iwerddon. Enlli yw'r unig ynys o unrhyw faint o fewn yr ardal honno. | Efallai mai twyll oedd y groes blwm i ddenu cyfraniadau ariannol tuag at ailadeiladu rhan o'r abaty a oedd wedi'i dinistrio gan dân yn 1184. |
| Mae coeden Afal Enlli, sy'n fath unigryw, wedi cael ei darganfod ar Ynys Enlli yn ddiweddar. Ym mhalas gwydr y Frenhines Morgan ar Ynys Afallon roedd coed afalau yn tyfu. | Yn yr arch honno roedd gweddillion gŵr 2.40 medr o daldra! Byddai dyn o'r maint hwnnw yn gawr – ond does dim sôn am Arthur fel cawr, dim ond fel arweinydd dewr y Brythoniaid yn erbyn y Sacsoniaid. |
| Enw hoff long y Brenin Arthur oedd 'Gwennan'. Suddodd y llong yn y môr i'r de-orllewin o Enlli mewn man stormus o'r enw Corffrydiau Caswennan. Mae'r enw hwn ar y darn o fôr wedi'i nodi mewn map o 1748. | |
| Tybed ai cyd-ddigwyddiad yw'r holl enwau hyn o gwmpas Ynys Enlli sy'n benthyg eu hunain i Ynys Afallon, Brwydr Camlan a'r Brenin Arthur? | |



© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 2, 3 a 4**

**Dewch i ymweld ag Ynys Enlli**
**A Wyddoch Chi ...?**
**Blog Dic Aberdaron**

A9. Mae ynysoedd yn bwysig i ni yng Nghymru.
**Cyfunwch a chrynhowch wybodaeth** o'r tri darn darllen i esbonio pam eu bod yn bwysig. [6]

| | |
|---|---|
| Crefyddol / Ysbrydol | **Ynys Enlli** – Ugain mil o saint, Llwybr y Pererinion |
| Hanesyddol | **Ynys Echni** - Recordiad o'r clip o'r neges ddi-wifr gyntaf yn cael ei gadw yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.<br>**Ynys y Barri** - Yn y gorffennol, roedd yn ynys go iawn, ond yn ystod oes Fictoria, adeiladwyd porthladd, gan gysylltu'r ynys â'r tir mawr. |
| Chwedlonol / Llenyddiaeth | **Ynys Gwales** - chwedl Branwen ferch Llŷr, mae'r saith gŵr a ddihangodd o Iwerddon yn treulio 80 mlynedd ar yr ynys yng nghwmni pen Bendigeidfran, yn gwledda ac yn mwynhau heb brofi gofid na galar.<br>**Ynys Afallon** – chwedl y Brenin Arthur a'r man y cludwyd ef iddo wedi iddo gael ei glwyfo ym Mrwydr Camlan. Arthur yn ffigwr pwysig ym marddoniaeth a chwedlau Cymraeg y cyfnod cynnar. |
| Cadwriaethol / Byd Natur | **Ynys Enlli** - adar, llamhidyddion a morloi llwyd yn eu cynefin naturiol. Coeden Afal Enlli.<br>**Ynys Gwales** - Ers 1947 bu'n warchodfa adar gan yr RSPB ac y mae bellach yn gartref i 39,000 pâr o huganod magu, yr unig nythfa o huganod yng Nghymru. |
| Datblygiad Technoleg | **Ynys Echni** - Guglielmo Marconi yn dod yno i brofi ei system delathrebu |
| Denu Ymwelwyr / Twristaidd | **Ynys Enlli** – taith ar gwch ac ymweliad â'r ynys<br>**Ynys y Barri** – man ffilmio rhaglen Gavin & Stacey, parc pleser sy'n cynnwys *rollercoaster*, reid ddŵr, *dodgems* a *waltzer* i oedolion. Trampolinau, cychod pedal ac atyniadau ffair traddodiadol i blant llai. |
| Gwarchod Enwau Llefydd | **Ynys Gwales** – Grassholm o'r Hen Norseg<br>**Ynys Enlli** – yr holl enwau sydd â chysylltiadau â chwedl y Brenin Arthur ar fannau yn ardal Aberdaron |
| Hudoliaeth | **Ynys Gwales** - Mewn llenyddiaeth Gymraeg mae'n adnabyddus fel ynys arallfydol lle treuliodd 7 gŵr 80 mlynedd ar yr ynys yng nghwmni pen Bendigeidfran, yn gwledda ac yn mwynhau heb brofi gofid na galar. |


© WJEC CBAC Cyf.

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

| | |
|---|---|
| **0 marc** | os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn. |
| **1 marc** | peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o’r darnau drwy restru ambell enghraifft yn fras |
| **2 farc** | peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o’r darnau drwy restru nifer o enghreifftiau |
| **3 marc** | ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o’r darnau a dechrau dehongli’r wybodaeth |
| **4 marc** | cyfuno gwybodaeth o’r darnau yn dda a dehongli’r wybodaeth yn gyson |
| **5 marc** | cyfuno gwybodaeth o’r darnau yn dda iawn a dehongli’r wybodaeth yn bwrpasol |
| **6 marc** | cyfuno gwybodaeth o’r darnau yn aeddfed gan ddehongli’r wybodaeth yn aeddfed a threfnus |


© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Cymro o *Love Island* ...**

A10. Pa un o’r datganiadau canlynol sy’n gywir? Rhowch ✔ yn un o’r blychau. [1]

| | |
|---|---|
| Mae Connagh a Wayne yn mynd i Affrica ar long hwylio. | |
| Roedd Connagh wedi cystadlu ar raglen *Love Island*. | ✓ |

A11. Esboniwch pam y penderfynodd Neville setlo i fagu ei deulu yng Nghaerdydd. [2]

1 marc yr un (hyd at 2):-

- Gan mai yno yr aeth ar ôl cael ei ryddhau o’r carchar.
- Yng Nghaerdydd y gwnaeth Neville gyfarfod â Shirley Gibson (ei wraig).
- Roedd ardal Tiger Bay yng Nghaerdydd yn gyrchfan a oedd yn denu pobl o India’r Gorllewin, oherwydd fel porthladd roedd gan y ddinas eisoes gymuned fywiog o gefndiroedd ethnig a oedd yn mynd o nerth i nerth.

A12. Daeth Connagh a Wayne i ddysgu llawer am eu teulu ar eu taith. Pam roedd hyn wedi cael effaith arnynt? [3]

- Neville yn 19 oed (yn ifancach na Connagh) yn dianc o Jamaica ar long i Brydain yn dilyn yr Ail Ryfel Byd – dangos ei hyder a’i fenter.
- Ar ôl cyrraedd Prydain, treuliodd Neville 28 diwrnod, gan gynnwys Dydd Nadolig, yn y carchar am deithio heb docyn – dangos ei fod yn fodlon wynebu canlyniadau er mwyn cael profi rhyddid yn y pen draw.
- Wayne a Connagh yn ymweld â Trenchtown, ardal yn Kingston, prifddinas Jamaica lle cafodd Neville ei fagu ac yn mynd ar ymweliad â safle hen ystâd caethweision – dod yn ymwybodol o’r amodau caled roedd eu cyndeidiau wedi gorfodeu profi.
- Roedd dilyn olion traed eu cyndeidiau gyda’i gilydd yn brofiad emosiynol i Wayne a Connagh. Roedd Wayne yn flin gyda’r ffordd roedd pobl wedi cael eu trin. “Dyma fy hynafiaid ac roedden nhw wedi’u rhestru yn llyfr caethweision yr ystâd fel nwyddau a’u categoreiddio yn ôl faint o waed du oedd ganddyn nhw.” – amlygu agwedd hiliol y gorffennol a’r gamdriniaeth a dderbyniodd aelodau eu teulu.

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Dim i’w wobrwyo |
| **1 marc** | Cyfeirio at ambell ffaith o’r darn darllen |
| **2 farc** | Cyfeirio’n eithaf manwl at y darn darllen a dechrau dehongli |
| **3 marc** | Cyfeirio at y darn darllen a dehongli gwybodaeth yn dda iawn |



© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN***<br>***(YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR***<br>***(IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Cyf.